NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Haint yn y llwybr wrinol sy'n gysylltiedig â chathetr

## *Heintiau yn y llwybr wrinol â chathetrau: oes angen gwrthfiotigau arna i?*

Mae cathetr yn bibell a gaiff ei gosod i mewn i'r bledren i wagio wrin. Gall adael bacteria i mewn i'r corff, a gall hyn arwain at haint ar y bledren neu'r arennau (haint yn y llwybr wrinol).

Ceir bacteria yn wrin pobl â chathetrau yn aml. Dim ond os bydd symptomau o haint yn y llwybr wrinol gennych y dylech gael cynnig gwrthfiotigau.  Mae'r symptomau hyn yn cynnwys poen yn yr abdomen isaf (ardal y bol), ac wrin cymylog â gwaed ac sy'n arogli'n gryf. Mae'n bosibl fod gennych dwymyn neu oerni, neu boen yn eich cefn.

Gall eich nyrs neu eich meddyg newid neu dynnu eich cathetr os yw'r un cathetr wedi bod yn ei le am wythnos neu fwy.

Gallwch hefyd helpu eich symptomau mewn ffyrdd eraill, er enghraifft, drwy gymryd paracetamol ac yfed digon o hylifau i hydradu'r corff.

Ni fydd angen gwrthfiotigau arnoch os na fydd gennych symptomau o haint yn y llwybr wrinol, hyd yn oed os bydd y profion yn dangos bod bacteria yn eich wrin.

## *Dechrau cymryd gwrthfiotigau*

Os cynigir gwrthfiotigau i chi gyda gwrthfiotigau, dylai eich meddyg esbonio y gallant achosi sgil-effeithiau, fel dolur rhydd a chyfog (teimlo'n sâl).

Dylech weld eich meddyg os na fyddwch yn dechrau teimlo'n well ar ôl dau ddiwrnod o ddechrau cymryd eich gwrthfiotigau, neu'n gynt os byddwch yn dechrau teimlo'n waeth.

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

Gall eich meddyg eich atgyfeirio i dderbyn cyngor arbenigol os bydd gennych arwyddion o salwch mwy difrifol neu os ydych yn feichiog, wedi'ch dadhydradu'n ddifrifol neu'n wynebu risg uwch o gymhlethdodau.

### *Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?*

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â thriniaeth a gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai eich gweithwyr iechyd proffesiynol roi gwyb odiaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon.

Mae gan wefan y GIG fwy o wybodaeth am:

- haint yn y llwybr wrinol sy'n gysylltiedig â chathetr
- gwrthfiotigau.

Rydym hefyd wedi ysgrifennu gwybodaeth am pam y dylid defnyddio gwrthfiotigau yn gall.

Gwnaethom ysgrifennu'r canllawiau hyn gyda gweithwyr iechyd proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd. Mae'r holl argymhellion yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-3163-7

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights